# BWRDD PENSIWN

Dydd Mercher, 20 Gorffennaf 2022

**YN BRESENNOL:** J. Jones (Cadeirydd)

**Aelodau'r Pwyllgor:**
P. Ashley-Jones - Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau
T. Bowler - Cynrychiolydd Undeb
M. Evans - Cynrychiolydd Aelodau
Y Cynghorydd A. Lenny - Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau

**Yn bresennol fel sylwedydd:**
Y Cynghorydd D.E. Williams - Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
J. Williams, Cyfrifydd Cynorthwyol
K. Gerard, Rheolwr Pensiwn
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 11.55 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gareth Lloyd, Cynrychiolydd Cyflogwyr, a Mr Mike Rogers, Cynrychiolydd Pensiynwr sy'n Aelodau.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Alun Lenny, Cynrychiolydd Cyflogwyr, a oedd wedi cymryd lle'r Cynghorydd Philip Hughes ar y Bwrdd. Nododd y Bwrdd ei ddiolch i'r Cynghorydd Hughes.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

## 3. COFNODION CYFARFOD Y BWRDD PENSIWN A GYNHALIWYD AR 3YDD MAI 2022

**CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn a gynhaliwyd ar 3 Mai 2022 gan eu bod yn gofnod cywir.**

## 4. CYFARFOD PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED 28AIN MEHEFIN 2022

### 4.1. 2022 CYNLLUN ARCHWILIO

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i Gynllun Archwilio Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn manylu ar y gwaith a gynigiwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, pryd y byddai'n cael ei gyflawni, y gost a'r cyfrifoldebau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch problemau adnoddau posibl yn Archwilio Cymru, dywedodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn y bu problemau adnoddau ond nad oedd hyn wedi effeithio ar Gronfa Bensiwn Dyfed.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.**

## 4.2. COFNODION BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED 25AIN IONAWR 2022

Nododd y Bwrdd fod cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2022 wedi'u derbyn gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed ar 28 Mehefin 2022.

## 4.3. SEFYLLFA GYLLIDEBOL DERFYNOL 2021-22

Derbyniodd y Bwrdd sefyllfa derfynol cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2021-22 ar 31 Mawrth 2022.

Mewn ymateb i eglurhad y gofynnwyd amdano ynghylch Ffioedd Rheoli Trafodiadau Anuniongyrchol, dywedodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn fod hon yn eitem heb fod yn arian parod mewn perthynas â ffioedd trafodiadau sy'n rhan o'r portffolio. Dywedodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn y byddai'n dosbarthu rhagor o fanylion er mwyn egluro.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.**

## 4.4. CYSONI ARIAN PAROD FEL YR OEDD AR 31AIN MAWRTH 2022

Bu'r Bwrdd yn ystyried yr adroddiad Cysoni Arian Parod (Diwedd y Flwyddyn) a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed. Nodwyd ar 31 Mawrth 2022 fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw £4.5m o arian parod ar ran y Gronfa ar gyfer gofynion llif arian uniongyrchol i dalu pensiynau, cyfandaliadau a chostau rheoli buddsoddiadau.

Dywedodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn y gwnaed rhagolygon llif arian dwy flynedd. Dywedwyd wrth y Bwrdd fod y prisiad tair blynedd ar y gweill gyda'r Actiwari ac y byddai canlyniad yr adolygiad ar gael yn yr hydref ac mai'r prif ystyriaethau yw'r gyfradd chwyddiant uchel a'r lefel ariannu bresennol.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.**

## 4.5. DIWEDDARIADAU GWEINYDDOL

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad a roddai ddiweddariad ar Weinyddu Pensiynau.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar y gweithgareddau yn y gwasanaeth Gweinyddu Pensiynau ac roedd yn cynnwys materion rheoleiddiol, cyflogwyr newydd, y gofrestr torri amodau, i-Connect, cysoniad GMP a llif gwaith.

Mewn ymateb i bryderon ynghylch defnyddio i-Connect, dywedodd y Rheolwr Pensiynau eu bod yn parhau i roi anogaeth i gyflogwyr yn y cynllun nad ydynt yn weithredol ar i-Connect eto.

Awgrymodd y Cadeirydd y gallai adroddiad ar i-Connect gael ei gyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, gan roi manylion am y cynnydd o ran gweithredu a'r amserlenni. Dywedodd y Rheolwr Pensiynau na fyddai'n bosibl adrodd ar amserlenni gan fod y rhain y tu hwnt i reolaeth y Gronfa Bensiwn ond y byddai diweddariad manylach ar weithredu yn cael ei roi.

**CYTUNWYD bod yr Adroddiad ar Weinyddu Pensiynau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei nodi.**

**4.6. ADRODDIAD TORRI AMODAU**

Cafodd y Bwrdd yr Adroddiad Torri Amodau, mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed, i'w ystyried. Nodwyd bod Adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004 yn pennu'r ddyletswydd gyfreithiol i riportio achosion o dorri'r gyfraith. Mae Côd Ymarfer rhif 14, paragraffau 241 i 275, a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ym mis Ebrill 2015, yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch riportio'r achosion hyn o dorri amodau.

Gan nad oedd goblygiadau o ran torri amodau, nid oedd adroddiad wedi ei anfon at y Rheoleiddiwr Pensiynau.

**CYTUNWYD bod yr Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei nodi.**

**4.7. COFRESTRE RISG**

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd fod y gofrestr risg yn ddogfen waith a oedd yn tynnu sylw at yr holl risgiau a nodwyd mewn perthynas â swyddogaethau Cronfa Bensiwn Dyfed. Dywedwyd bod y gofrestr risg yn cael ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu hadnabod a'u hasesu. Adroddwyd nad oedd unrhyw newidiadau wedi bod ers cyfarfod blaenorol y pwyllgor.

Codwyd pryder a fynegwyd yn flaenorol ynghylch strwythur yr adroddiad. Pwysleisiodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn, gan mai pecyn meddalwedd a ddefnyddir yn gorfforaethol gan yr Awdurdod yw hwn, fod cyfyngiadau o ran sut y gellid echdynnu a chyflwyno'r data. Cytunwyd i gael trafodaethau pellach gyda'r Bwrdd i ganfod y ffordd orau o fynd i'r afael â'r cais hwn.

**Cytunwyd bod yr adroddiad ar y gofrestr risg yn cael ei nodi.**

**4.8. CYNLLUN HYFFORDDI 2022-23**

Cafodd y Bwrdd Gynllun Hyfforddi Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2022-2023 a oedd yn rhoi manylion am gyfarfodydd, digwyddiadau hyfforddi a'r aelodau a'r swyddogion y rhagwelwyd y byddent yn mynychu'r digwyddiadau.

**CYTUNWYD bod Cynllun Hyfforddi Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2022-23 yn cael ei nodi.**

**4.9. DIWEDDARIAD AR ÔL TROED CARBON**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar y gweithgarwch a'r cynnydd o ran sefyllfa Ôl Troed Carbon Cronfa Bensiwn Dyfed.

Cadarnhaodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn y bydd y Diweddariad ynghylch Ôl Troed Carbon yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Dyfed.

Cytunodd y Bwrdd y byddai'n fuddiol cael cyflwyniad blynyddol yn tynnu sylw at yr hyn y mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn ei wneud a sut y gallai fod yn lleihau ei hôl troed carbon.

**CYTUNWYD bod y Diweddariad ynghylch Ôl Troed Carbon mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei nodi.**

**4.10. COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED A GYNHALIWYD AR 28AIN MEHEFIN 2022**

Gofynnwyd pam mai dim ond tri o'r Cynghorwyr oedd yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Pensiwn ar 28 Mehefin oedd wedi datgan buddiant. Dywedodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn fod y Cynghorydd Owen yn bresennol fel sylwedydd ac felly nad oedd yn rhaid iddi ddatgan buddiant, gan nad oedd hi'n bresennol fel aelod â phleidlais. Nid oedd yn rhaid i Aelodau'r Bwrdd Pensiwn ddatgan buddiant gan eu bod yn cyflawni rôl craffu ac nad oeddent yn gwneud penderfyniadau.

**CYTUNWYD bod cofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2022 yn cael eu nodi.**

**5. CYNLLUN GWAITH Y BWRDD PENSIWN 2022-2023**

Ystyriodd y Bwrdd Gynllun Gwaith y Bwrdd Pensiwn ar gyfer 2022-23 a oedd yn amlinellu gwaith y Bwrdd Pensiwn drwy gydol 2022 a'r eitemau i'w cyflwyno ym mhob cyfarfod.

Gofynnodd y Cadeirydd am i'r diweddariad blynyddol ar Ôl Troed Carbon Cronfa Bensiwn Dyfed (fel y trafodwyd yn eitem 4.9 ar yr agenda) gael ei gynnwys fel eitem ar wahân yng Nghynllun Gwaith y Bwrdd Pensiwn.

Dywedodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn y byddai dadansoddiad o anghenion hyfforddi yn cael ei gynnal ar y cyd â'r Bwrdd i gytuno ar ofynion datblygu aelodau'r Bwrdd.

**CYTUNWYD bod Cynllun Gwaith y Bwrdd Pensiwn ar gyfer 2022-2023 yn cael ei nodi.**

## 6. MONITRO CYLLIDEB Y BWRDD PENSIWN 1AF EBRILL 2022 - 30AIN MEHEFIN 2022

Cafodd y Bwrdd adroddiad Monitro Cyllideb y Bwrdd Pensiwn ar 30 Mehefin 2022. Cyfanswm y gwir wariant oedd £9.1k. Y gwariant a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn oedd £3k o danwariant o gymharu â'r gyllideb.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.**

## 7. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 8. ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG YMGYNGHORYDD BUDDSODDI ANNIBYNNOL 31AIN MAWRTH 2022

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yn eitem 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy roi perfformiad o ran buddsoddiadau mewn perygl.**

Cafodd y Bwrdd Adroddiad Perfformiad a Risg yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, a roddai wybodaeth mewn perthynas â pherfformiad y rheolwr buddsoddiadau ar gyfer pob chwarter, pob 12 mis a chyfnodau treigl o 3 blynedd, gan ddod i ben ar 31 Mawrth 2022, ynghyd â chefndir y farchnad fyd-eang a materion i'w hystyried.

**CYTUNWYD bod Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022, yn cael ei nodi.**

## 9. ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST 31AIN MAWRTH 2022

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yn eitem 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy roi perfformiad o ran buddsoddiadau mewn perygl.**

Cafodd y Bwrdd Adroddiad Perfformiad a Risg yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, a roddai wybodaeth mewn perthynas â pherfformiad y rheolwr buddsoddiadau ar gyfer pob chwarter, pob 12 mis a chyfnodau treigl o 3 blynedd,

gan ddod i ben ar 31 Mawrth 2022, ynghyd â chefndir y farchnad fyd-eang a materion i'w hystyried.

**CYTUNWYD bod Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022, yn cael ei nodi.**

**10. ADRODDIADAU'R RHEOLWR BUDDSODDI AR 31AIN MAWRTH 2022**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yn eitem 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy roi perfformiad o ran buddsoddiadau mewn perygl.**

Cafodd y Bwrdd adroddiadau gan y rheolwyr buddsoddi i'w hystyried a oedd yn nodi perfformiad pob rheolwr fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022:

- BlackRock - Adroddiad Chwarterol 31 Mawrth 2022;
- Schroders - Adroddiad Buddsoddi Ch1 2022;
- Grŵp Partneriaid - Cyllid Chwarterol Mawrth 2022;
- Cronfa Tyfu Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 31 Mawrth 2022;
- Cronfa Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 31 Mawrth 2022.

**CYTUNWYD bod adroddiadau'r rheolwyr buddsoddi ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed yn cael eu nodi.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**